

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar  
Zoom  
Nos Fawrth, Chwefror 8, 2022 am 7:30yh o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Simon Evans, Geraint Rowlands, Gareth Ellis, John Hughes, Elfed ap Gomer, Gethin Williams. Hefyd Cyng. Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Llinos Williams a Gwenan Owen. Roedd yn drist iawn clywed am brofedigaeth Gwenan o golli ei thad.

**2. Datgan diddordeb:**

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitemau 5.c. a 5.ch.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 11, 2022**

Wedi cywiro 'John Arfon Jones' i ddarllen 'John Arfon Owen' yn Eitem 5.b, cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer ac eilwyd gan John Hughes.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Ionawr 11, 2022**

Eitem 4. a. Eitem 11.b. Llythyr ateb (27/1/2022) oddi wrth Mr Mark Austin (Alba Mineral Resources plc) yn rhoi gwybod mi fydd yn cyfarfod Elfed ap Gomer i drafod ei lythyr.

Cafwyd wybod gan Elfed mae Mark Austin am gynnal diwrnod agored yn Neuadd Bentref Bontddu ar Chwefror 10fed, rhwng 9 a 6, er mwyn i bobl daro i mewn a gofyn eu cwestiynau. Mae hysbysiad am y cyfarfod ar Facebook Neuadd Bontddu – anfonwyd yr hysbysiad ymlaen i'r aelodau.

Eitem 11.c. Llythyr ateb (13/1/2022) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Canolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd y gwaith adnewyddu'r ffos yn cael ei wneud yn y dyfodol agos.

Eitem 11.g. Llythyr ateb (17/1/2021) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod fod y llwybr yn gyfreithlon felly mae beiciau modur yn gallu teithio arni.

Llythyr ateb (17/1/2022) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod maent am roi sylw i'r mater ac am gysylltu â Gwenan Owen. Roeddynt yn awgrymu ini gysylltu â Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru am y mater..

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION CHWEFROR 8, 2022

Hywyrach bydd gan Geraint Rowlands wybodaeth am y llwybr wedi iddo fynychu cyfarfod y Parc ar Mawrth 15.

Llythyr ateb (18/1/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad yn rhoi gwybod mater i Priffyrdd yw hwn.

Eitem 11. ff. Llythyr ateb (27/1/2022) oddi wrth Dŵr Cymru gyda gwybodaeth o ddefnyddio chlorine mewn cyflenwad dŵr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Elfed.

Eitem 11. ch. Mae gwaith ar do arosfa bws Taicynhaeaf wedi ei gwblhau gyda gwaith da.

Eitem 11. e. Llythyr ateb (18/1/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad yn rhoi gwybod maent am wneud ymoliadau ynglŷn â'r llwybr.

Eitem 11. dd. Llythyr ateb (18/1/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad yn rhoi gwybod maent am ymholi os y tiffeddianwr sy'n gyfrifol am y difrod.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i glirio'r goeden ar y llwybr.

## **5. Materion Ariannol**

a. Derbyniwyd (12/1/2022) £841.17, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2021/2022.

b. Bil (19/1/2022) am £60 oddi wrth G.W. Jones am dorri gwrych y fynwent yn 2020 a 2021.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Marie Curie, Tŷ Gobaith a Hope House (Children's Hospices), Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Dawns i Bawb,

Llythyr (27/11/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2021-22. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 o dan adran 137(1) ac (3) £8.41, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.41 x 386 = £3,246.26.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION CHWEFROR 8, 2022

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:

Cyngor ar Bopeth, Gwynedd - £200

Ambiwlans Awyr Cymru - £400

Cymdeithas Y Dydd - £100

Ysgol Feithrin Dolgellau - £300

Tŷ Gobaith a Hope House (Children's Hospices) - £100

Marie Curie £100.

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau).

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £150

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):

Neuadd Bentref Bontddu: - £600

Neuadd Bentref Llanelltyd - £600

Cyfanswm: £2,550.

ch. Bil (31/1/2022) am £206.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am gynnal a chadw ein gwefan am flwyddyn arall.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Derbyniwyd siec am £215.00 oddi wrth Mrs B. Roberts, trwy law Glyn Rees a'i Fab (7/2/2022). Taliad at Robert Glyn Edwards - claddu gweddillion o'r amlogfa.

dd. Balans yn y banc ar 29/1/2022: £12,017.03. (29/1/2021: £11,421.42).

## **6. Archwilio**

## **7. Mynwent Llanelltyd**

a. Gweler Eitem 5.b. uchod.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (21/1/2022) oddi wrth Partneriaethau PCE / Cynorthwyol Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn atgoffa am weithdai ar sut mae cael Twristiaeth Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri. Bydd gweithdy dalgylch Dolgellau ar Ionawr 27, 2022 am 2.30yp ac ar Zoom. Mae angen cofrestru erbyn 24/1/22.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION CHWEFROR 8, 2022

b. Llythyr (25/1/2022) yn rhoi gwybod mae'r Parc a Cyngor Gwynedd wedi bod yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy newydd ar gyfer yr ardal.

Amgáu mae dogfen yn amlinellu'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma. Mae'r ddogfen yn rhoi: Beth sy'n cael ei drafod, Beth ydi economi ymweld cynaliadwy, Pam ein bod angen gweithredu, Beth ydi'r ystadegau twristiaeth yn yr ardal, Beth yw'r prif faterion sy'n codi yn yr ardal, Beth yw ymateb Cyngor Gwynedd a'r Parc, Beth yw'r farn hyd yma, Beth ydi'r camau nesaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (28/1/2022) yn rhoi gwybod mae'r Parc, gyda RSPB Cymru a Choed Cadw, wedi bod yn arwain y Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru i warchod a gwella statws cadwraethol coedlannau derw. Mae'r prosiect yn ceisio cael gwared â Rhododendron sydd wedi ymledu, cael gwared â choed annymunol e.e. coed conwydd, a chyd weithio gyda sefydliadau perthnasol e.e. tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, gweithwyr proffesiynol. Os mae angen fwy o wybodaeth am y prosiect mae angen cysylltu gyda'r Parc.

Anfonwyd y llythyr, a map yn dangos ardaloedd y prosiect, ymlaen i'r aelodau.

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (11/1/2022) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd sesiynau yn cael eu cynnal i drafod sut mae gwireddu a gwareiddio ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri. Bydd sesiwn dalgylch Dolgellau ar 27/1/2022 am 2.30yp. Mae angen cofrestru erbyn 24/1/2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (17/1.2022) oddi wrth Cyngor Tref Nefyn yn gofyn i gynghorwyr gymryd rhan mewn tri ymgynghoriad mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal ynglyn ag ail dai. Mae awgrym i'r atebion yr ymgynghoriadau wedi cael eu paratoi ac angen eu hanfon ymlaen i Llywodraeth Cymru. .

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (21/1/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Y Frenhines yn cynnal tair Garddwest ym Mhalas Buckingham ar ddydd Mercher 11eg Mai, dydd Mercher 18fed Mai a dydd Mercher 25ain Mai. Bydd angen y cynghorydd llwyddiannus fod ar gael ar gyfer y tri dyddiad. Mae'r gwahoddiad i Arddwestau Palas Buckingham i Cynghorwyr a aeth y filltir ychwanegol ar gyfer eu cymunedau yn ystod y pandemig. Mae angen yr enw erbyn dydd Llun 7fed Chwefror.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION CHWEFROR 8, 2022

ch. Llythyr (21/1/2022) oddi wrth Cyngor Cymuned Llandygai yn ymwneud a diffyg ymateb a chyfathrebu gan Cyngor Gwynedd i faterion sy'n cael eu codi gan gynghorau cymuned. Amgáu mae llythyr ateb derbyniwyd gan Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r Cyngor am ymchwilio i wella eu trefniadau ymateb i ymoliadau. I wneud hyn yn effeithiol maent angen esiamplau gan gynghorau cymuned i ddangos lle'r oedd ddiffyg ymateb.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (28/1/2022) oddi Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am 'videos' sydd ar gael i godi ymwybyddiaeth rôl cynghorwyr cymuned i gymdeithas.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (28/1/2022) oddi wrth Cyngor Tref Bermo yn hysbysu am yr angen am Glerc.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (31/1/2022) oddi wrth Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd gyda rhestr o ddarparwyr ar gyfer cynnal sesiynau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

f. Llythyr (2/2/2022) oddi wrth Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â gwaith ymgysylltu Cam 1 – Ardal Ni 2035. Mae'n cynwys adroddiad cryno 'Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Dolgellau'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ff. Llythyr (7/2/2022) oddi wrth Dash UK yn gwerthu mygiau yn dathlu Jiwbili Platinwm y Frenhines.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

### **10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Bydd y dreth yn codi 2.95% sydd yn llai nag arferol.

b. Bydd Timau i gadw ein cymuned yn daclus yn cael eu creu mis Mawrth.

**11. Materion yr Aelodau**

a. Mae angen amserlen gadarn i waith sydd wedi ei addo i ledu Pont Hirgwm, Bontddu. Angen trwsio cerrig canllaw y bont hefyd.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

b. Angen gang cymunedol i lanhau a thacluso pridd dail sydd wedi hel ar Bont Hirgwm a Hendre Forion.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

c. Coed heb eu codi a symud o ffordd Cwm Hirgwm ar gyfer Pen Nebo.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

ch. Ar Afon Cwm Mynach mae sawl person wedi adrodd fod llawer o ddŵr budr i'w weld yn llifo i lawr y llechwedd lle mae coed yn cael eu torri, a bod y ffosydd wedi cau gyda'r gwaith coed. Mae hyn wrth Pont Cwm Mynach.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru

-----